The Dry Stone Walling Association of Great Britain

North Wales Branch



... to preserve, improve and advance education in the craft of dry stone walling for the benefit of the public...

DSWA is registered as a charitable organisation (289678)

DRY STONE WALLS AND CLODDIAU

Dry stone walls are an ancient form of boundary, important in terms of landscape and conservation, as well as providing stock proofing. North Wales, with its wide variety of rock types, has numerous different styles of wall, all built with essentially the same principles adapted to suit the local stone and needs.

Walls are not necessarily uniform stone barriers; many include interesting features such as sheep holes, drains and stiles. Local styles also greatly affect the character of walls, many walls built out of large slabs often have small gaps in their faces to save on stone, in slate areas their height is sometimes extended with long slates built into the wall to carry top wires. They are steeped in local history and folklore. Sometimes, especially around farmyards, quartz is placed in the "coping" (top stones) to ward off evil spirits.

Walls are frequently well over 100 years old, often built at the time of the enclosure movement to provide field boundaries and to clear stone from the fields. In areas where stone was more scarce "cloddiau" (plural of clawdd) can be found These are stone faced earth banks, normally lower than a wall, but often with a hedge planted on top and sometimes with a ditch on one side. North Wales is one of the few strongholds of these "stone hedges".

Unfortunately the majority of walls and cloddiau are falling into a state of disrepair. Originally they would have been maintained on an annual basis. With changes in farming practices, most notably labour levels, this practice has changed and walls are often neglected to the point where unrealistically expensive major repair work is required. Many thousands of hours of work went into the building of North Wales' network of walls, mostly in a surprisingly short period of time. Their expected life-span is largely indeterminate, depending on a wide variety of factors, such as ground conditions, stone type, construction techniques, how exposed the site is and so forth . Unfortunately they do not last forever and following years of neglect they are now falling into a state of disrepair at a faster rate than they can be repaired. Repair is undoubtedly expensive, grants are sometimes available to ease this cost, and they will outlast a fence many times over if properly maintained, and in the long term can prove to be a wise investment.

WHAT IS THE DRY STONE WALLING ASSOCIATION?

The Dry Stone Walling Association of Great Britain is a registered charity founded in 1968 to *"preserve, improve and advance education in the craft of dry stone walling for the benefit of the public"*. The basic aims of the North Wales Branch reflect this, encouraging Waller's of all abilities, both professional and amateur, to improve the quality and quantity of their work. The Branch also encourages the repair and maintenance of existing walls, rather than their destruction.
To this end we run a programme of events, training courses, displays and competitions. A free national register of professional members is available and this includes information on types of work undertaken, areas worked in, and qualifications held etc. Also available are a number of free leaflets on walling, and the Branch produces *"Stonechat"* one of the few magazines providing general interest and technical information on the craft. This is free to members and supporters of the Branch. In addition there are a number of booklets that are for sale. All these can be obtained at events or from the branch secretary.

SKILLS CERTIFICATION

The Dry Stone Walling Association of Great Britain maintains a certification scheme to ensure adequate standards and encourages all organisations to recognise and to use the Master Craftsman Scheme. This is the only skills certification in dry stone walling, and is linked to the national 'Qualification and Credit Framework' via Lantra Awards. There are four levels of certification to cover a wide range of abilities —initial, intermediate, advanced and master craftsman. The North Wales Branch organises courses and tests for those wishing to enter or advance through the scheme. Separate leaflets are available on Branch Training and the Craftsman certification Scheme.

WEBSITE

Further details of the Branch and its activities, can be found at www.dswales.org.uk, which includes back copies of "Stonechat", and training course details/booking form. Information about the National Association can be found at www.dswa.org.uk.

CONTACT

Clawdd with fairly typical vertically set stone in courses

This leaflet has been funded by the Gareth Pritchard Memorial Fund, commemorating the late Aberconwy Master Craftsman, dedicated waller and Branch Officer.

Cymdeithas Waliau Cerrig Sychion Prydain Fawr

Cangen Gogledd Cymru



"...gwarchod, gwella a hyrwyddo addysg am y grefft o godi waliau cerrig sych er lles y cyhoedd..."

Mae'r Gymdeithas Waliau Cerrig Sych wedi'i chofrestru fel sefydliad elusennol (289678)

WALIAU CERRIG SYCH A CHLODDIAU

Mae waliau cerrig sych yn ffurf hynafol ar derfyn, yn bwysig o ran tirlun a chadwraeth a hefyd yn cadw anifeiliaid yn eu lle. Gyda'i hamrywiaeth eang o fathau o greigiau, mae gan Ogledd Cymru waliau o bob math ac maent i gyd wedi'u hadeiladu gyda'r un egwyddorion yn eu hanfod, wedi'u haddasu i weddu i'r garreg a'r anghenion lleol.

Nid yw waliau'n rhwystrau cerrig unffurf o anghenraid; mae nifer ohonynt yn cynnwys nodweddion diddorol fel tyllau i ddefaid, draeniau a chamfeydd. Mae'r arddull lleol yn cael dylanwad mawr ar gymeriad waliau hefyd. Mae llawer o'r waliau sydd wedi'u hadeiladu o slabiau mawr yn cynnwys bylchau bychain yn eu hwyneb yn aml iawn, i arbed cerrig. Yn yr ardaloedd llechi, mae eu huchder yn cael ei ymestyn weithiau gyda llechi hir wedi'u hadeiladu yn y wal i gludo gwifrau ar y top. Maen nhw'n gyforiog o hanes a llen gwerin. Weithiau, yn enwedig o amgylch buarth, mae cwarts yn cael ei osod yn y "cerrig copin" (y cerrig uchaf) i gadw ysbrydion drwg draw.

Mae waliau ymhell dros 100 oed yn aml, wedi'u hadeiladu gan amlaf yn ystod y cyfnod pryd datblygwyd caeau wedi'u hamgáu, i ddarparu terfynau ac i glirio cerrig o'r caeau. Mewn ardaloedd lle'r oedd cerrig yn brinnach, gwelir "cloddiau" (lluosog clawdd). Cloddiau pridd yw'r rhain gydag wyneb carreg, yn is na wal fel arfer ond gyda gwrych wedi'i blannu ar y top yn aml, a ffos ar un ochr weithiau. Gogledd Cymru yw un o ychydig gadarnleoedd y "cloddiau cerrig" hyn, sydd i'w canfod yn gyffredinol mewn ardaloedd fel gwastatiroedd arfordirol lle mae cerrig yn brinnach.

Gwaetha'r modd, mae mwyafrif y waliau a'r cloddiau yn prysur ddadfeilio. Yn wreiddiol, byddent wedi cael eu cynnal yn flynyddol. Gyda newidiadau mewn arferion ffermio, a'r newidiadau mewn llafur yn arbennig, mae'r arfer hwn wedi newid ac mae waliau'n cael eu hesgeuluso cymaint yn aml nes bod gwaith atgyweirio mawr ac afrealistig o ddrud angen ei wneud. Treuliwyd miloedd lawer o oriau gwaith yn adeiladu rhwydwaith Gogledd Cymru o waliau, ac mewn cyfnod anhygoel o fyr yn bennaf. Mae'n anodd datgan yn bendant am faint fydd y waliau hyn yn para; mae'n dibynnu ar amrywiaeth eang o ffactorau, fel amodau'r tir, y math o garreg, y technegau adeiladu, pa mor agored yw'r safle ac ati. Gwaetha'r modd, nid ydynt yn para am byth ac wedi blynyddoedd o esgeulustod, maen nhw'n prysur ddadfeilio yn awr ar raddfa gyflymach nag y gellir eu hatgyweirio. Mae'r atgyweirio yn sicr yn ddrud ac weithiau mae grantiau ar gael i leddfu'r gost hon. Bydd waliau cerrig yn para llawer mwy nag unrhyw ffens os cânt ofal priodol. Yn y tymor hir, gallant brofi'n fuddsoddiad doeth.

BETH YW'R GYMDEITHAS WALIAU CERRIG SYCHION?

Mae Cymdeithas Waliau Cerrig Sychion Prydain Fawr yn elusen gofrestredig a sylfaenwyd yn 1968 er mwyn *"gwarchod, gwella a hyrwyddo addysg am y grefft o godi waliau cerrig sych er lles y cyhoedd".* Mae amcanion sylfaenol Cangen Gogledd Cymru yn adlewyrchu hyn, gan annog codwyr waliau o bob gallu, yn broffesiynol ac yn amatur, i wella safon a swm eu gwaith. Mae'r Gangen hefyd yn annog atgyweirio a chynnal a chadw'r waliau presennol, yn hytrach na'u dinistrio.

Er mwyn gwneud hyn, rydym yn cynnal rhaglen o ddigwyddiadau, cyrsiau hyfforddi, arddangosfeydd a chystadlaethau. Mae cofrestr genedlaethol am ddim o aelodau proffesiynol ar gael ac mae hon yn cynnwys gwybodaeth am y mathau o waith a wneir, yr ardaloedd y gweithiwyd ynddynt a'r cymwysterau a enillwyd ac ati. Mae nifer o daflenni am ddim am walio ar gael hefyd, ac mae'r Gangen yn cynhyrchu *"Stonechat"*, un o'r ychydig gylchgronau sy'n ennyn diddordeb cyffredinol yn y grefft ac yn darparu gwybodaeth dechnegol amdani. Mae'r cylchgrawn hwn am ddim i aelodau a chefnogwyr y Gangen. Hefyd ceir nifer o lyfrynnau sydd ar werth. Gellir sicrhau'r rhain i gyd mewn digwyddiadau neu gan ysgrifennydd y gangen.

ARDYSTIO SGILIAU

Mae Cymdeithas Waliau Cerrig Sychion Prydain Fawr yn gweithredu cynllun ardystio er mwyn sicrhau safonau priodol ac mae'n annog pob sefydliad i gydnabod a defnyddio'r Cynllun Prif Grefftwr. Hwn yw'r unig gynllun sy'n ardystio sgiliau codi waliau cerrig sych ac mae'n gysylltiedig â'r 'Fframwaith Cymwysterau a Chlod' cenedlaethol drwy gyfrwng Lantra Awards. Ceir pedair lefel ardystio ar gyfer amrywiaeth eang o alluoedd – cychwynnol, canolraddol, uwch a phrif grefftwr. Mae Cangen Gogledd Cymru yn trefnu cyrsiau a phrofion ar gyfer y rhai sy'n dymuno dod yn rhan o'r cynllun neu wneud cynnydd drwyddo. Mae taflenni ar wahân ar gael am Hyfforddiant Cangen a'r Cynllun Ardystio Crefftwyr.

GWEFAN

Ceir rhagor o fanylion am y Gangen a'i gweithgareddau yn www.dswales.org.uk, sy'n cynnwys hen gopïau o "Stonechat", a manylion/ffurflen archebu'r cyrsiau hyfforddi. Ceir gwybodaeth am y Gymdeithas Genedlaethol yn www.dswa.org.uk.

CYSWLLT : gweler drosodd

Cyllidwyd y daflen hon gan Gronfa Goffa Gareth Pritchard, er cof am y diweddar Brif Grefftwr, y waliwr ymroddedig a'r Swyddog Cangen yn Aberconwy.